# Knowledge and Understanding of the World







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cyf: AC/GM/0854
ISBN: 9780750446969
Mehefin
A-EAC-02-01-qA686755/1/AB
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys

**Cefndir** **2**

**Cyflwyniad** **4**
Datblygu sgiliau

**Lleoedd a phobl** **6**
Astudiaeth achos: Y maes awyr

**Amser a phobl** **10**
Astudiaeth achos: Bywyd yn y 1960au

**Fi fy hun a phethau byw eraill** **16**
Astudiaeth achos: Wyau byw

**Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw** **20**
Astudiaeth achos: Pasta a phitsa

**Cynllunio** **24**
Cynllun tymor canolig
Cynllun pythefnos ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Cynnydd mewn dysgu** **26**
Lleoedd a phobl
Amser a phobl
Fi fy hun a phethau byw eraill
Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ar draws y cwricwlwm** **29**

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** **32**

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** **36**

**Cydnabyddiaethau** **42**

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.



# Cyflwyniad

Mae Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn ymwneud â bywyd pob dydd y plant, eu cartrefi, eu teuluoedd, pobl eraill, yr amgylchedd a'r gymuned leol, a'r byd ehangach. Bydd y plant yn cael profiadau ystyrlon trwy wahanol fathau o gyfleoedd i chwarae, dysgu'n weithredol, dysgu trwy brofiad a gwneud gweithgareddau ymarferol. Bydd y profiadau hynny'n deffro'u synhwyrau ac yn eu hannog i ofyn cwestiynau, archwilio a rhyfeddu at eu hamgylchedd. Byddan nhw'n gwneud gwaith ymchwil a fydd yn ennyn eu diddordeb, a byddan nhw'n datblygu eu hymwybyddiaeth o gredoau a safbwyntiau pobl eraill.

Mae'r cwricwlwm troellog a hyrwyddwyd gan Jerome Bruner yn adlewyrchu'r gred bod y modd mae plant yn dysgu yn broses o ailymweld â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth blaenorol ac adeiladu arnyn nhw wrth i'r plant ddatblygu. Mae'r model hwn yn arbennig o addas i ddysgu a datblygiad plant rhwng 3 a 7 oed, ac mae'n cefnogi ethos y Cyfnod Sylfaen. Gall rhai pynciau neu themâu gael eu dilyn gan blant ar draws yr holl ystod oedran ar eu lefel eu hunain, er enghraifft gallai unrhyw grŵp oedran ymwneud â'r thema drawsgwricwlaidd 'Lle rydw i'n byw' trwy gyfrwng gwahanol weithgareddau dysgu sy'n dibynnu ar wybodaeth flaenorol y plant.

Bydd plant yn dysgu trwy'r dulliau canlynol:

- trwy'r broses o ddysgu trwy brofiad sy'n:
  - hanfodol i arfer da mewn addysg ar gyfer plant ifanc
  - dechrau â phrofiadau plant yn y gorffennol neu'r presennol
  - annog chwilfrydedd plant ac yn eu hannog i chwarae trwy archwilio
  - rhoi cyfle i blant adalw a defnyddio'u profiadau
  - peri i blant ofyn cwestiynau am eu profiadau dysgu
  - galluogi plant i archwilio'u hamgylcheddau dysgu ac ymchwilio iddyn nhw
  - galluogi plant i gyfathrebu, rhyngweithio a siarad am yr hyn hoffen nhw ei wneud
  - galluogi plant i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
  - gwneud y dysgu'n berthnasol i blant, eu bywydau a'r byd go iawn
  - rhoi cyfle i ddysgu pethau newydd
  - rhoi cyfle i ymarfer sgiliau
  - rhoi cyfleoedd i blant gofnodi eu canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd
  - cynnwys cyfleoedd i werthuso gwaith dysgu

- trwy efelychu pobl eraill, er enghraifft wrth chwarae rôl a chwarae'n ddychmygus
- trwy ddysgu sgiliau penodol yn uniongyrchol, er enghraifft wrth ddysgu sut i ddefnyddio offer arbenigol neu offer mesur.

## Datblygu sgiliau

Mae'r sgiliau canlynol yn hanfodol ar gyfer y Maes Dysgu hwn a gellir eu datblygu ar draws y cwricwlwm hefyd.

- Arsylwi
- Cymharu
- Dosbarthu
- Ymholi
- Archwilio ac arbrofi
- Gwrando
- Gwneud penderfyniadau
- Rhagfynegi a phrofi
- Myfyrio
- Disgrifio
- Didoli a grwpio
- Trefnu
- Gofyn/ateb cwestiynau
- Ymchwilio
- Meddwl
- Datrys problemau
- Cofnodi
- Cyfathrebu
- Gwerthuso



# Lleoedd a phobl

Er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth plant ynghylch 'Lleoedd a  phobl' mae'r meysydd a'r profiadau allweddol canlynol yn rhai y gellid cynllunio ar eu cyfer.

- Gan ddechrau â'r hyn maen nhw'n ei wybod am eu cartrefi eu hunain, efallai y bydd y plant yn siarad am ble maen nhw'n byw, yn gwneud model ag offer adeiladu neu'n tynnu llun o'u tŷ, ac yna'n symud ymlaen i ymdrin â gwahanol fathau o drafnidiaeth, gan ddisgrifio a chofnodi eu taith i'r ysgol mewn lluniau.
- Ar ôl bod am dro yn yr ardal leol, gellid rhoi ffotograffau o'r daith mewn trefn i ddarlunio'r daith, gellid mynegi hoffter o nodweddion penodol o'r amgylchedd, a gellid creu cynllun o'r ardal leol gan ddefnyddio symbolau i gynrychioli nodweddion penodol.
- Dylai'r plant ddechrau â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth maen nhw'n eu meithrin trwy ymweld â gwahanol leoedd yn eu hardal, a chymharu a chyferbynnu lleoedd â'i gilydd, megis y traeth, y dref neu'r wlad.
- Dylai ymweliadau â lleoedd cyferbyniol alluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau ymholi, meithrin eu gallu i adnabod a thrafod nodweddion daearyddol, a rhoi profiadau uniongyrchol iddyn nhw o ystod o wahanol amgylcheddau.
- Gallai'r plant greu senarios byd bach neu gofnodi eu profiadau trwy dynnu llun, peintio, gwneud modelau neu ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol addas.
- Bydd awyrluniau o'r ardal lleol o gymorth i'r plant ddechrau deall sut y mae gwahanol leoedd yn gysylltiedig â'i gilydd, a byddan nhw o gymorth iddyn nhw ddechrau defnyddio termau daearyddol perthnasol i ddisgrifio nodweddion penodol.
- Gellir defnyddio teganau llawr rhaglenadwy ac offer a reolir o bell er mwyn galluogi'r plant i ddysgu dilyn cyfarwyddiadau a llwybrau, yn ogystal â hybu eu sgiliau defnyddio technoleg.
- Gan adeiladu ar sgiliau cofnodi a ddysgwyd yn gynharach, dylai'r plant symud ymlaen i greu eu mapiau eu hunain, a defnyddio mapiau a chynlluniau sydd ar raddfa fawr.
- Trwy wrando ar storïau, edrych ar ffotograffau, a gofyn ac ateb cwestiynau, gall y plant ddysgu am leoedd sydd ymhellach i ffwrdd, y bobl sy'n byw yno, y math o fwyd a gynhyrchir yno a'r

gwahanol fathau o drafnidiaeth a dulliau teithio a geir yno, a gallan nhw ddysgu sut i ddefnyddio atlasau a globau er mwyn dod o hyd i leoedd.

- Bydd arsylwi a thrafod y tywydd yn rheolaidd yn galluogi'r plant i werthfawrogi effeithiau'r tywydd ar fywyd pob dydd mewn gwahanol amgylcheddau. Wrth iddyn nhw symud yn eu blaen, bydd y plant yn gallu cynllunio arbrofion a gwneud gwaith ymchwil, er enghraifft er mwyn casglu data am wynt a glaw, a chofnodi'r canlyniadau mewn modd graffigol gan ddefnyddio TGCh.
- Trwy arsylwi'r gwaith mae pobl yn ei wneud, darganfod y gwahanol fathau o drafnidiaeth leol sydd ar gael, a darganfod sut caiff adeiladau eu defnyddio, bydd plant yn dechrau deall sut mae ardal yn newid a byddan nhw'n dysgu sut mae gweithredoedd pobl yn newid yr amgylchedd.
- Wrth i blant feithrin gwybodaeth am weithleoedd a rolau pobl yn eu hardal, byddan nhw'n dynwared rolau, gallu gwrando ar ymwelwyr a'u holi am eu rolau, cofnodi'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod, a symud ymlaen i gynnal arolwg o'r gyrfaoedd yr hoffai plant eraill eu dilyn pan fyddan nhw'n hŷn.



Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y llwyddodd sgwrs am wyliau i ysgogi gweithgaredd a gafodd ei arwain yn llwyr gan y plant.

## Y maes awyr

Yn ystod tymor yr haf, roedden ni wedi bod yn sgwrsio am ble roedden ni'n mynd ar ein gwyliau. Roedd hynny wedi arwain at drafodaeth ar y pethau y byddai angen i ni fynd â nhw gyda ni ar ein gwyliau, a thrafodaeth am ddillad ac eitemau eraill addas y byddai eu hangen arnom ni efallai, yn dibynnu ar ble roedden ni'n mynd.

Roedd y plant yn gwneud 'cesys dillad' gan ddefnyddio bocsys cardbord bach o ganolfan ailgylchu. Roedden nhw'n tynnu lluniau o ddillad ac eitemau eraill addas y byddai eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu gwyliau a gwneud labeli, ac wedyn torri'r cyfan allan. Yn ystod ein trafodaethau â'r plant, roedden ni'n siarad hefyd am basportau. Daeth ymarferwyr â'u pasportau i ddangos i'r plant a phenderfynon nhw wneud eu pasportau eu hunain. Aeth y plant ati i greu llyfrau bach â lluniau ohonyn nhw eu hunain a'u dyddiadau geni ac ati ynddyn nhw. Roedd rhai yn stampio'r tudalennau gwag â'r pad inc a'r stampiau a oedd ar gael yn y dosbarth.

Yna, cynigiodd Anwen ein bod i gyd yn chwarae gêm gan ddefnyddio'r eitemau roedden ni wedi'u gwneud. Roedden ni'n siarad fel dosbarth am ble bydden ni'n defnyddio pasportau a chesys dillad. Cynigiwyd swyddfa trefnwr teithiau yn gyntaf. Ar ôl trafod mwy, sylweddolodd y plant y byddai maes awyr yn lle gwell. Felly, aeth y plant ati i chwilio am yr holl eitemau y byddai arnyn nhw eu hangen. Ni chafwyd trafodaeth am y lle gorau ar gyfer y maes awyr – allan yn yr awyr agored oedd orau.



Aeth y plant â bwrdd a glôb allan. Roedden nhw am gael papur a phennau ysgrifennu i greu tocynnau. Yna, gofynnodd y plant a allen nhw fynd â chadeiriau allan er mwyn creu awyren. Meddyliodd Rebecca am roi rhif ar y cadeiriau fel bod y teithwyr yn gallu cael tocyn â rhif a fyddai'n cyfateb i'r rhif ar y gadair.

Cafodd y gweithgaredd hwn ei arwain yn llwyr gan y plant. Nhw oedd yn cynnig y syniadau o'r cychwyn cyntaf. Llwyddon nhw i gael gafael ar lawer o wybodaeth am wahanol leoedd o amgylch y byd (er na ofynnodd neb pam roedd pawb yn mynd ar yr un awyren!), ac roedden nhw wedi mwynhau creu'r tocynnau a chwilio am y rhifau ar eu cadeiriau ar yr awyren. Roedd y plant wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ac, yn bwysicach na dim, roedden nhw i gyd wedi cael llawer o hwyl.



# Amser a phobl

Er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth plant ynghylch 'Amser a phobl' mae'r meysydd a'r profiadau allweddol canlynol yn rhai y gellid cynllunio ar eu cyfer.

- Gall y plant ddysgu rhoi digwyddiadau eu diwrnod mewn trefn, gan ddefnyddio tystiolaeth o ffotograffau a chofnodi eu syniadau mewn lluniau a llyfrynnau. Bydd sgiliau trefnu'r plant mewn perthynas â threigl amser yn cael eu hatgyfnerthu trwy storïau, caneuon a rhigymau.
- Gall y plant symud ymlaen i roi digwyddiadau'r wythnos a digwyddiadau cyfnodau hwy na hynny mewn trefn, gan ddefnyddio ffotograffau wedi tynnu ganddyn nhw eu hunain (dan do ac yn yr awyr agored). Gellir cofnodi'r digwyddiadau trwy ddefnyddio llinell amser pan fo hynny'n briodol. Dylai'r plant ymgyfarwyddo â geirfa sy'n disgrifio treigl amser gan ddechrau â digwyddiadau yn eu bywydau eu hunain.
- Gall ffotograffau o genedlaethau hŷn fod yn sbardun da i blant ddechrau archwilio a gofyn cwestiynau am y gorffennol a digwyddiadau'r gorffennol, a gallan nhw ennyn diddordeb rhieni/gofalwyr yn y cwricwlwm hefyd. Efallai y bydd ffotograffau yn cyfrannu i amgueddfa'r dosbarth o deganau neu eitemau hen/newydd sy'n ymwneud â'r cartref, y gall y plant eu trin a'u cymharu gan ddysgu geirfa berthnasol i ddisgrifio nodweddion sy'n perthyn i arteffactau o wahanol gyfnodau.
- Gellid gofyn i ymwelwyr siarad â'r plant am eu plentyndod neu eu dyddiau ysgol. Bydd hynny'n galluogi'r plant i feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, bod yn rhan o sgyrsiau dwy ffordd, yn ogystal ag archwilio ffotograffau ac arteffactau, a gwrando ar storïau. Bydd hynny'n helpu'r plant i ddehongli tystiolaeth a deall pam y gwnaeth pobl rai pethau a pham y digwyddodd rhai pethau, a deall rhai o ganlyniadau hynny.
- Gall yr adroddiadau ymwelwyr hyn cael eu cymharu â llyfrau, DVDau, arddangosfeydd amgueddfeydd ac ati, i gynorthwyo plant i ddeall fod yna wahanol ffyrdd o ddehongli'r gorffennol.
- Yn ogystal, gall storïau helpu'r plant i ddeall y cysyniad o hen a newydd, a deall dylanwad cymeriadau a digwyddiadau'r gorffennol, er enghraifft cymeriadau hanesyddol Cymru.
- Gall ymweliadau ag amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol lleol helpu'r plant i feithrin gwell dealltwriaeth o adeiladau a ffyrdd o fyw yng Nghymru yn y gorffennol.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut cafodd prosiect, oedd yn wreiddiol yn edrych ar y gwahanol fathau o dai oedd yn nodweddiadol o ardal yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, ei ymestyn i gynnwys gwrando ar gerddoriaeth o'r 1960au ac edrych ar arteffactau tŷ bob dydd a ffasiynau y 1960au.**

## Bywyd yn y 1960au

Yn ystod y 1960au, cafodd stad fawr o dai ei datblygu yn ein hardal ar safle lle roedd nifer sylweddol o dai wedi cael eu dymchwel ychydig cyn hynny oherwydd eu cyflwr gwael. Adeiladwyd ein hysgol yn 1960 ar gyfer plant y teuluoedd oedd yn symud i fyw yn y stad newydd.

Bwriad ein prosiect yn wreiddiol oedd edrych ar y gwahanol fathau o dai oedd yn nodweddiadol o'n hardal yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Aethom ni i ymweld â'n hamgueddfa werin leol er mwyn i'r plant gael gweld y gwahanol fathau o dai drostyn nhw eu hunain. Roedden ni'n cerdded o gwmpas ein stad i edrych ar y gwahanol dai a oedd yno hefyd. Yn ystod y ddau weithgaredd, roedd y plant yn tynnu lluniau arsylwadol o'r hen dai a'r tai newydd.

Mwynhaodd y plant yr ymweliadau a'r gwaith dilynol gymaint nes i ni benderfynu gwahodd Mair i'r ysgol. Yn y 1960au Mair oedd un o ddisgyblion cyntaf ein hysgol a daethom ni o hyd i'w henw yn yr hen gofrestr. Daeth gyda'i mam i ddweud wrthym ni sut brofiad oedd symud o'i hen dŷ i'r tŷ newydd, a sôn wrthym ni am yr hyn roedd hi'n ei gofio am fod yn ddisgybl yn yr ysgol. Meddyliodd y plant am gwestiynau i'w gofyn, a chafodd y cyfweliad ei recordio i'w ddefnyddio'n nes ymlaen.

Gadawodd Mair focs (a ddarparwyd gennym ni) o arteffactau roedd hi'n bwriadu cael gwared â nhw o atig ei thŷ. Edrychodd y plant arnyn nhw, a chawsan nhw eu hannog i feddwl pam roedd Mair am gael gwared â nhw, a'r rhesymau dros gael gwared â phethau yn gyffredinol (gweler tudalen 13). Roedden nhw'n ysgrifennu disgrifiadau o'r hen dai ac yn cofnodi'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu. Wrth gofio a chymharu'r wybodaeth roedden nhw wedi'i chaffael, roedd y plant yn cael eu hannog i ddatblygu eu cof a'u sgiliau adalw gwybodaeth a gwella'u sgiliau meddwl beirniadol.

# Pam taflu'r rhain?



does dim angen
y lamp oherwydd
maer ty bach y ty fewn.



does dim angen y
jwg dwr oherwydd
mae tap dwr cynnes
gennym ni.



does dim angen
cannwyll mae
trydan i gael.

Penderfynwyd ymestyn cwmpas ein prosiect er mwyn astudio sut fywyd oedd gan bobl yn ystod y 1960au. Ymwelodd dramodydd hanesyddol â'r ysgol gan chwarae rhan cymeriad o'r enw Mrs Jones, a dywedodd fwy wrthym ni am fywyd yn y 1960au. Cymerodd y plant ran mewn gweithgareddau chwarae rôl. Soniodd 'Mrs Jones' wrthym ni am gerddoriaeth y 1960au, ac aethom ni ati felly i brynu CD a dysgu sut i ddawnsio'r 'twist' a symudiadau eraill oedd yn nodweddiadol o ddawnsio'r 1960au.



Dywedodd ‘Mrs Jones’ wrthym ni am ddillad y 1960au hefyd, ac aethom ni ar y rhyngrwyd i weld a allem ni ddarganfod rhagor o wybodaeth am ffasiwn y cyfnod hwnnw. Edrychodd y plant ar batrymau seicedelig yn ogystal â phatrymau du a gwyn cyn mynd ati i gynllunio’u patrymau eu hunain. Daeth rhieni/gofalwyr â ffotograffau o’r 1960au a daeth ymarferwyr a oedd wedi byw trwy’r 1960au â rhai o’u hen deganau i’r ysgol, a roedden ni’n eu cymharu â theganau newydd.

Rhoddodd y prosiect lawer o gyfleoedd i ni ddatblygu gweithgareddau trawsgwricwlaidd ym Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd. Er enghraifft, cafwyd cyfle i ddefnyddio iaith ddaearyddol wrth lunio map darluniol, a chafwyd cyfle i bwyso a mesur cynhwysion i wneud rhôl fara (wrth gymharu bara wedi’i sleisio o archfarchnad â bara ‘go iawn’).

Mwynhaodd y plant y prosiect hwn yn fawr iawn – mae gennym ni genhedlaeth newydd o rai sy’n dwli ar gerddoriaeth y 1960au erbyn hyn.

## Fi fy hun a phethau byw eraill

Er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth plant ynghylch 'Fi fy hun a phethau byw eraill' mae'r meysydd a'r profiadau allweddol canlynol yn rhai y gellid cynllunio ar eu cyfer.

- Gan ddechrau â nhw eu hunain, bydd rhigymau a chaneuon actol yn galluogi'r plant i feithrin eu dealltwriaeth a'u geirfa ar gyfer disgrifio prif rannau eu cyrff.
- Dylai'r plant ddysgu am eu nodweddion trwy edrych ar eu hadlewyrchiad mewn drych, llunio cymariaethau, a siarad am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau amlwg sydd rhyngddyn nhw a phlant eraill.
- Wrth iddyn nhw symud yn eu blaen, dylai'r plant arsylwi pobl ac anifeiliaid eraill a'u cymharu â'i gilydd. Dylen nhw ddarganfod bod anifeiliaid, gan gynnwys pobl, yn symud, bod angen bwyd a dŵr arnyn nhw, eu bod yn tyfu a'u bod yn atgynhyrchu.
- Trwy arbrofi mewn ystod o weithgareddau strwythuredig, dylai'r plant ddysgu defnyddio'u synhwyrau i wahaniaethu rhwng gwahanol synau, blasau, arogleuon a gweadau, yn ogystal ag adnabod gwahaniaethau yn weledol.
- Gan ddefnyddio chwyddwydrau ac arsylwi pethau byw eraill megis creaduriaid bach a gasglwyd o'r amgylchedd lleol, dylai'r plant ddysgu am greaduriaid byw eraill a'u didoli a'u dosbarthu yn ôl eu meini prawf eu hunain neu feini prawf y cytunwyd arnyn nhw.
- Wrth i'w sgiliau ddatblygu, dylai'r plant fod yn gallu cofnodi'r data o'u hymchwiliadau gan ddefnyddio tablau, siartiau, graffiau, lluniau a TGCh, fel y bo'n briodol.
- O wneud gweithgareddau ymarferol megis palu, plannu, gofalu am hadau ac arsylwi'r modd maen nhw'n tyfu, bydd y plant yn dod i wybod am rannau planhigion ac yn deall bod planhigion yn bethau byw y mae angen dŵr arnyn nhw i dyfu.
- Efallai y gallai'r plant archwilio ardal neu arddangosfa synhwyraidd (gellid creu gardd synhwyraidd yn yr awyr agored i'r plant ymchwilio iddi hi). O ddysgu yn yr awyr agored, dylai'r plant fod yn meithrin gwybodaeth am gadwraeth a chynaliadwyedd hefyd.

- Gan adeiladu ar brofiadau cynharach, dylai'r plant fod yn gallu ymchwilio i a rhagfynegi'r amodau gorau ar gyfer tyfu hadau. Wrth iddyn nhw dyfu'n ymchwilwyr mwy soffistigedig, dylai'r plant fod yn gallu adnabod yr amodau ar gyfer prawf teg.
- Dylai gwaith arsylwi, gwaith ymchwilio a gwaith pwnc sy'n gysylltiedig â thyfiant alluogi'r plant i ddysgu am y newid sy'n digwydd mewn anifeiliaid a phlanhigion dros amser, a dysgu am effeithiau'r tywydd a'r tymhorau.
- Dylai cyfleoedd fod ar gael i blant ddewis gwahanol systemau cofnodi.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut y cafodd plant gyfle gwych i gael profiad uniongyrchol o 'fywyd newydd' pan gyrhaeddodd deorydd yn yr ysgol ag 11 ŵy oedd yn barod i ddeor.**

## Wyau byw

**Diwrnod 1 –** Cyrhaeddodd y deorydd a'r wyau yn yr ysgol. Roedd y plant wedi cael eu paratoi ymlaen llaw ar gyfer hynny trwy drafodaethau, arddangosfeydd wal, storïau a phosau. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd y plant yn trafod ac yn rhagfynegi llawer, "Byddan nhw'n tyfu ac yn mynd twît twît."

**Diwrnod 2 –** Roedd y plant yn llawn cyffro'r diwrnod cyntaf y dechreuodd y cywion dorri plisgyn eu hwyau, ac roedden nhw'n gwylio, yn gwrando ac yn aros. Arhosodd ymarferydd wrth ymyl y deorydd trwy gydol y cyfnod aros wrth i'r plant fynd a dod yn gyson. Er mawr lawenydd i'r plant a'r staff, cyrhaeddodd Cyw 1 am 11.05 a.m. Erbyn 1.50 p.m. roedd chwe chyw arall yn dechrau torri plisgyn eu hwyau. Ymledodd y newyddion ar draws yr ysgol, a daeth llif cyson o blant mewn grwpiau bach i weld y digwyddiad. Erbyn 3.10 p.m. roedd Cyw 2 a Chyw 3 wedi deor, neu fel y disgrifiodd un plentyn y digwyddiad, "Pigon nhw dwll gyda'u pig. Torron nhw fe."



**Diwrnod 3 –** Deorodd saith ŵy arall yn ystod y nos, a gwelwyd y cyw olaf yn torri'i blisgyn ac yn deor am 10.05 a.m. Roedd hwn yn gyfradd llwyddiant o 100 y cant, sy'n uwch na'r norm o 70 y cant. Roedd pawb yn brysur yn ystod gweddill y diwrnod yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau oedd yn canolbwyntio ar y cywion. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys trafod, peintio, tynnu lluniau arsylwadol, gwisgo i fyny, darllen storïau a thynnu ffotograffau.

**Diwrnod 4** – Roedd y plant yn gwylio wrth i'r cywion fflwffog gael eu symud i'w lle magu. Roedd y plant wedi bod yn helpu i baratoi'r lle magu, y bwyd a'r dŵr. Roedd ganddyn nhw lawer i'w ddweud am y cywion, "Maen nhw mor neis", "Maen nhw'n fflwffog iawn ac yn fach ac yn bert", "Byddan nhw'n troi mewn i geiliog fel eu mam".



**Diwrnod 5** – Dyma'r cyfle cyntaf i'r plant ei gael i gyffwrdd â'r cywion. Er mwyn sicrhau bod pob un ohonon ni'n cofio'r gweithgaredd, tynnwyd ffotograffau o bob plentyn yn dal cyw yn unigol (cafodd y ffotograffau eu troi'n gardiau Pasg yn nes ymlaen).

Roedd y pum diwrnod wedi bod yn wych. Roedd y profiad wedi ennyn llawer o frwdfrydedd a diddordeb, ac wedi hybu lefelau cymhelliant ymhlith y plant. Roedd y plentyn mwyaf swil wedi mynegi cyffro a phleser, ac roedd y plentyn mwyaf hyderus wedi bod yn sensitif ac yn dawel ac wedi dangos agwedd ofalgar at bethau byw. Rydym ni'n gobeithio ailadrodd y gweithgaredd y flwyddyn nesaf gyda chywion hwyaid.

# Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw

Er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth plant ynghylch 'Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw' mae'r meysydd a'r profiadau allweddol canlynol yn rhai y gellid cynllunio ar eu cyfer.

- Wrth chwarae trwy archwilio ac wrth ddatrys problemau, dylai'r plant ddarganfod gwahanol briodweddau defnyddiau naturiol megis tywod, dŵr, pren a chlai.
- Wrth chwarae'n greadigol â defnyddiau hydrin, dylai'r plant ddarganfod bod modd mowldio rhai defnyddiau i wahanol siapiau trwy eu hymestyn, eu gwasgu, eu plygu neu eu troelli.
- Ceir nifer o gyfleoedd i archwilio priodweddau ac ymchwilio i briodweddau defnyddiau y caiff eitemau pob dydd eu gwneud ohonyn nhw, megis teganau neu ddillad. Ceir nifer o gyfleoedd hefyd i gaffael geirfa berthnasol i ddisgrifio'r eitemau, a dechrau cysylltu'r defnyddiau â'r modd y cânt eu defnyddio.
- Wrth wneud gwaith ymchwil cynnar, dylai'r plant gael gafael ar wybodaeth trwy ddefnyddio eu synhwyrau i archwilio defnyddiau naturiol a defnyddiau gwneud. Dylen nhw sôn am eu profiadau a phriodweddau'r defnyddiau, ac yna symud ymlaen i brofi defnyddiau gan gofnodi arsylwadau a mesuriadau'n gywir.
- Bydd y plant yn dysgu o brofiadau uniongyrchol, megis gweithgareddau coginio, er mwyn arsylwi a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i rai defnyddiau pob dydd pan gânt eu cynhesu neu'u hoeri, neu pan gaiff defnyddiau eu cymysgu.
- Wrth chwarae'n gorfforol â theganau bach a mawr ag olwynion, bydd y plant yn arbrofi ac yn dechrau dysgu bod gwthio neu dynnu rhywbeth yn gallu gwneud iddo fe gyflymu, arafu neu newid cyfeiriad. Byddan nhw hefyd yn dechrau defnyddio geirfa addas sy'n ymwneud â grymoedd.
- Bydd plant yn dysgu o oedran cynnar iawn sut i ddefnyddio switshis i reoli dyfeisiau trydan, a bydd angen iddyn nhw gael eu haddysgu'n uniongyrchol am beryglon trydan.
- Bydd gan blant sy'n gallu dilyn cyfarwyddiadau a chreu cylchedau trydan ddiddordeb arbennig mewn gwneud hynny os bydd y gweithgaredd wedi'i gysylltu, er enghraifft, â modelau sy'n goleuo, yn enwedig modelau y maen nhw wedi eu gwneud eu hunain.
- Wrth arsylwi effeithiau golau'r haul ac ymchwilio i effeithiau golau gan ddefnyddio lampau a thortshis mewn mannau tywyll, bydd y plant yn datblygu dealltwriaeth o olau, tywyllwch a chysgodion, ac yn dechrau rhagfynegi effeithiau posibl gwahanol amodau.

- Bydd gêmau ac arbrofion â sŵn yn galluogi'r plant i ddechrau deall sut mae sŵn yn teithio. Byddan nhw'n mwynhau creu eu 'ffonau' eu hunain o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu, gwneud penderfyniadau a datrys problemau gyda'i gilydd.
- Gall plant o bob oed arbrofi ar lefel briodol ag eitemau neu offer sy'n gwneud sŵn, a chofnodi darganfyddiadau mewn modd addas.
- Dylid annog y plant i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, megis llyfrau a thechnoleg gwybodaeth, i wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth am y byd sydd o'u cwmpas.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y llwyddodd gêm syml yn yr awyr agored i ysgogi rhai gweithgareddau coginio, a roddodd gyfleoedd i blant archwilio ac ymchwilio i briodweddau defnyddiau mewn ffordd oedd yn hwyl.**

## Pasta a phitsa

Roedden ni wedi sylwi bod llawer o'r plant yn mwynhau gweithgareddau 'gwneud bwyd' yn yr ardal goginio a'i weini yn y 'caffi' roedden ni wedi'i greu. Cawsom ni syndod pan arweiniodd y gweithgaredd hwn at weithgaredd yn yr awyr agored, pan gludodd un o'r plant bitsa dychmygol i rywle pan oedd ar gefn beic. Yn ystod amser cylch yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, holon ni'r plant ynghylch eu hoff fwydydd. Sylwon ni bod pawb yn hoffi pitsa neu basta, neu'n hoffi'r ddau mewn ambell achos. Felly, penderfynon ni wneud rhai ein hunain.


Cyn i'r plant gyrraedd fore trannoeth, gosodon ni ddau fwrdd mawr – un ar gyfer gwneud pasta ac un arall ar gyfer gwneud pitsa. Ar y bwrdd gwneud pasta, rhoddwyd teclyn gwneud pasta roedden ni wedi cael ei fenthyg, blawd, olew, tomatos ar gyfer y saws pasta, ac amrywiaeth o bowlenni cymysgu a byrddau torri. Ar y bwrdd gwneud pitsa, rhoddwyd eitemau tebyg ynghyd ag ychydig o gaws ac amrywiaeth o fwydydd iach y gellid eu rhoi ar bitsa.

Pan gyrhaeddodd y plant, esbonion ni wrthyn nhw y byddai gennym ni ddau grŵp – byddai un grŵp yn gwneud pasta a byddai grŵp arall yn gwneud pitsa. Yna, dewisodd y plant pa grŵp roedden nhw am fod ynddo. Yn fuan iawn, roedd pawb wrthi'n pwyso, yn mesur ac yn cymysgu cynhwysion wrth iddyn nhw wneud eu pasta a pharatoi gwaelod eu pitsas. Roedd y plant i gyd yn mwynhau'r gweithgaredd ac yn aros yn eiddgar am y cam nesaf.




Cafodd y plant oedd yn gwneud pasta syndod mawr o wybod y bydden nhw'n gwneud pasta o gynhwysion crai. Nid oedd neb yn sylweddoli bod modd gwneud pasta – roedd pawb yn meddwl ei fod yn dod mewn pecyn o'r archfarchnad! Roedden nhw i gyd yn awyddus iawn i ddefnyddio'r teclyn gwneud pasta, ac roedden nhw wrth eu bodd yn gwylio'r pasta'n mynd yn fwy ac yn deneuach bob tro roedd yn cael ei rolio.

Roedd y plant oedd wrthi'n gwneud pitsas yn arbennig o awyddus i ddewis bwydydd i'w rhoi ar eu pitsas.




Roedd rhai o'r plant am greu wynebau ar eu pitsas, ac aethon nhw at y cyfrifiadur i ddylunio eu pitsas.




Wedi bore prysur yn coginio, mwynhaodd pob un ohonon ni fwyta ein pasta a'n pitsa yn ystod ein hamser byrbryd. Tra'n sgwrsio hefo'r plant, gwnaeth un o'r ymarferwyr roi gwybod i'r plant nad oedd pitsa a phasta yn cael eu bwyta'n aml o gwbl yng Nghymru pan oedd hi'n ferch, er bod y gynhwysion i gyd ar gael. Meddyliodd y plant i gyd eu bod yn lwcus iawn i gael pitsa a phasta yn eu deiet.

# Cynllunio

Mae thema neu bwnc yn rhoi cyd-destun i blant ac yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth trwy brofiadau ystyrlon sy'n cydberthyn i'w gilydd, profiadau y gallan nhw siarad amdanyn nhw a'u cysylltu â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. Mae pwnc megis y tywydd yn un y gall pob plentyn uniaethu ag ef, ac mae'n rhoi digonedd o gyfleoedd i arsylwi'n uniongyrchol, dysgu geirfa newydd a siarad am brofiadau. Mae creu cardiau/eitemau ar gyfer achlysuron arbennig yn galluogi plant i ddod yn ymwybodol o'r defnydd a wneir o ystod o ddefnyddiau.

## Cynllun tymor canolig

Mae'r tabl isod wedi'i dynnu o gynllun tymor canolig sy'n dangos y deilliannau dysgu posibl a all godi pan fo adnoddau addas a dychmygus yn cael eu darparu ar gyfer cyfleoedd a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda.

| Cyfleoedd a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio | Adnoddau | Deilliannau dysgu posibl |
|---|---|---|
| Tyfu ystod o blanhigion mewn bocsys ffenestri.<br>Darllen am y 'tymhorau' a 'thyfu'.<br>Ymuno mewn caneuon a rhigymau am yr haf, yr hyn rydym ni'n ei wisgo a'r hyn gallwn ni ei wneud pan fo'r tywydd yn gynnes.<br>Mynd am dro yn ein cymuned a'n gardd i arsylwi'r tymhorau. | Berwr, topiau moron a phlanhigion ar gyfer gwelyau blodau<br>Llyfrau, taflenni, pamffledi<br>CDau a thapiau cerddoriaeth<br>Chwyddwydr, siart tywydd â symbolau tywydd | Gall plant arsylwi'r tywydd a dangos diddordeb yn y modd y mae'r tywydd yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd yn ystod tymor yr haf. |
| Tyllu tyllau mewn cerdyn, archwilio unrhyw offer yn yr ardal gelf sy'n cael eu defnyddio i gysylltu defnyddiau â'i gilydd.<br>Hydoddi a chymysgu sylweddau.<br>Archwilio prosesau gwneud marciau. | Teclyn dal tâp glynu, pinnau hollt, clipiau papur, styffylau<br>Jygiau, cwpanau, biceri, blawd, reis, paent, inciau<br>Creonau, pensiliau | Gall plant archwilio defnyddiau a dechrau adnabod eu diben a'r defnydd a wneir ohonyn nhw. |

## Cynllun pythefnos ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Amser a phobl**
Gan ddefnyddio gwybodaeth o stori Betsi Cadwaladr o'r gyfres *Storïau Hanes Cymru** fel sbardun, cyflwynwch waith nyrs nifer o flynyddoedd yn ôl i'r plant. Yn dilyn hynny, siaradwch â'r plant am rôl nyrs heddiw. Trefnwch bod nyrs dannedd yn ymweld â'r ysgol (i siarad am bwysigrwydd cadw dannedd yn lân, dangos sut i frwsio dannedd yn iawn, a dangos pa fwydydd sy'n dda/yn wael i'ch dannedd).

**Fi fy hun a phethau byw eraill**
Gan ddefnyddio ystod o adnoddau, gan gynnwys llyfrau, atlasau, ffotograffau a phecynnau TGCh, arsylwch y gwahaniaethau rhwng gwahanol anifeiliaid (er enghraifft anifeiliaid sydd heb ddannedd, anifeiliaid sydd â dannedd miniog, anifeiliaid sydd â dannedd y tu allan i'w ceg, anifeiliaid â chynffon/heb gynffon, anifeiliaid sydd â dwy/pedair coes, anifeiliaid sydd â breichiau a choesau/adenydd a choesau).

**Lleoedd a phobl**
Ymchwiliwch i wledydd cynhenid gwahanol anifeiliaid a'r modd y mae'r lleoedd hynny'n debyg/yn wahanol i leoedd yng Nghymru.

**Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw**
Mwynhewch eich hunain yn gwneud 'dwylo iâ' trwy lenwi menig rwber â dŵr, dŵr a sudd ffrwythau, neu ddŵr a phaent. Gadewch i'r 'dwylo' rewi a chymharwch eu hansawdd ar ôl iddyn nhw rewi. Yna, mesurwch faint o amser y mae'n ei gymryd i bob 'llaw iâ' doddi.

* Gweler yr adran 'Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol'.

# Cynnydd mewn dysgu

Dylid cynllunio'r ddarpariaeth i blant ym maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd fel cyfanwaith integredig gan ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd wedi eu meithrin mewn Meysydd Dysgu eraill, ac adeiladu arnyn nhw. Yn ogystal â chynllunio ar gyfer y Maes Dysgu arbennig hwn ar draws y cwricwlwm, dylid cynllunio gweithgareddau hefyd ar gyfer datblygu sgiliau penodol. Bydd y plant yn symud yn eu blaen trwy'r amrywiol elfennau pan fyddan nhw'n barod i wneud hynny o safbwynt datblygiad. Dylai annog plant i fod yn chwilfrydig a darganfod pethau trwy:

- archwilio ac arbrofi
- meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion
- gwrando ar syniadau pobl eraill
- nodi'r hyn y mae arnyn nhw eisiau ei ddarganfod a nodi sut y mae gwneud hynny
- meddwl am beth allai ddigwydd pe bai ...
- dod yn ymwybodol o gyflawniadau pobl a'r 'syniadau mawr' sydd wedi dylanwadu ar y byd
- ymchwilio i ffynonellau a materion
- meddwl am sut y byddan nhw'n gwybod bod rhywbeth wedi gweithio
- gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion
- llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau
- didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau
- gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- meddwl yn greadigol a dychmygus
- cyfleu arsylwadau a mesuriadau
- adnabod patrymau syml yn eu casgliadau
- disgrifio'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml
- mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill
- defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau ac ymadroddion hynny
- myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a gwerthuso'r gwaith hwnnw.

## Lleoedd a phobl

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ddysgu am leoliad eu hardal leol
- dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a llwybrau
- defnyddio a llunio mapiau syml er mwyn darganfod ble mae lleoedd penodol a sut mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill
- adnabod y nodweddion naturiol, *e.e. afonydd, bryniau, traethau*, a'r nodweddion a grëwyd gan ddyn, *e.e. adeiladau, ffyrdd, pontydd*, yn eu hardal eu hunain
- dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o'r byd
- dysgu am sut a pham mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd, *e.e. y lleoedd mae pobl yn gweithio ynddyn nhw ac yn mynd ar eu gwyliau iddyn nhw, y lleoedd mae teulu a ffrindiau'n byw ynddyn nhw*
- defnyddio atlasau a globau
- ymchwilio i sut mae lleoedd yn newid, *e.e. y tywydd, y tymhorau, adeiladau, swyddi pobl*
- adnabod sut gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd.

## Amser a phobl

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- roi diwgyddiadau, trefniadau arferol a newidiadau mewn trefn, *e.e. yn ystod taith i'r ysgol, mewn stori*
- mesur amser gan ddefnyddio dyfeisiau mesur syml, clociau, oriawr a chalendrau
- adnabod y newidiadau a gaiff eu hachosi gan dreigl amser, *e.e. y newidiadau sy'n digwydd iddyn nhw eu hunain a phobl a mannau cyfarwydd*
- sylweddoli bod rhesymau dros rai gweithredoedd a bod y gweithredoedd hynny'n gallu esgor ar ganlyniadau
- dechrau adnabod y gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau, *e.e. trwy gymharu lle cyfarwydd yn ystod gwahanol gyfnodau yn y gorffennol*
- defnyddio ystod o ffynonellau hanesyddol, gan gynnwys arteffactau ac adeiladau, oedolion yn dwyn eu gorffennol i gof a ffynonellau gweledol
- edrych ar wahanol bortreadau a dehongliadau o'r gorffenol, *e.e. gwahanol lyfrau/lluniau/ffynonellau TGCh sy'n ymwneud â'r un person neu'r un digwyddiad*.

## Fi fy hun a phethau byw eraill

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- ddysgu enwau prif rannau allanol y corff dynol a phlanhigion, a dysgu am y modd y cânt eu defnyddio
- arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio
- adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw eu hunain a phlant eraill
- dysgu am y synhwyrau mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnyn nhw ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas
- adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored
- adnabod yr effeithiau mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion.

## Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw

**Dylid rhoi cyfleoedd i blant:**

- arbrofi â gwahanol wrthrychau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl nodweddion syml
- arbrofi â gwahanol ddefnyddiau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl priodweddau syml
- datblygu ymwybyddiaeth o ddefnyddiau synthetig a defnyddiau naturiol, a gallu gwahaniaethu rhyngddyn nhw
- deall sut y mae rhai defnyddiau cyffredin yn newid eu siâp wrth iddyn nhw gael eu hymestyn, eu gwasgu, eu plygu, eu troi, eu twymo neu'u hoeri
- deall bod goleuni'n dod o amrywiaeth o ffynonellau, megis yr Haul, a bod tywyllwch yn deillio o ddiffyg goleuni
- deall bod nifer o wahanol fathau a ffynonellau o sain ar gael, a bod seiniau'n teithio oddi wrth eu ffynonellau ac yn cael eu clywed wrth iddyn nhw gyrraedd y glust.

# Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ar draws y cwricwlwm

Er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, mae angen cynllunio gofalus ar draws pob Maes Dysgu i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu, cymhwyso ac ymestyn eu sgiliau arsylwi, ymholi, ymchwilio, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau trwy amrywiaeth o gyfryngau. Ceir llawer o gyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn y Meysydd Dysgu eraill ac yn y gwahanol feysydd addysgu yn y lleoliad/yr ysgol, er enghraifft:

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- trafod gwahanol fathau o fwyd o amrywiol ddiwylliannau'n gyntaf, ymchwilio iddyn nhw ac adnabod y rheiny sy'n iach, cyn symud ymlaen i gofnodi eu canfyddiadau mewn gwahanol ffyrdd
- deall fod yna wahanol ffyrdd o ddangos yr un pobl/digwyddiadau

## Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- edrych ar lyfrau a ffynonellau TGCh a chyfeirio atyn nhw er mwyn dod o hyd i wybodaeth am anifeiliaid, yr amgylchedd a phobl enwog y presennol a'r gorffennol; dod o hyd i'r wybodaeth a'i thrafod yn gyntaf cyn symud ymlaen i fedru ei throsglwyddo a'i defnyddio er mwyn ymestyn eu gwaith dysgu
- gwrando ar bobl/ymwelwyr sydd â gwahanol rolau yn y gymuned yn gyntaf, gofyn cwestiynau iddyn nhw, a symud ymlaen i ysgrifennu disgrifiadau o'r gwaith y mae'r bobl hynny'n ei wneud a pha mor bwysig ydyn nhw i'n cymunedau ni heddiw

## Datblygiad Mathemategol

- defnyddio'r amgylchedd awyr agored sydd agosaf atyn nhw a'r amgylchedd lleol er mwyn darparu cyfleoedd i arsylwi patrymau (a phatrymau ailadroddol) – gan gofnodi patrymau syml yn gyntaf, cyn symud ymlaen i batrymau mwy manwl/cymhleth
- creu cynlluniau a mapiau o amgylchedd y lleoliad/yr ysgol a'r amgylchedd lleol er mwyn atgyfnerthu'r broses o ddatblygu iaith fathemategol sy'n ymwneud â safle

## Datblygu'r Gymraeg

- datblygu geirfa Gymraeg am nodweddion amgylchedd y lleoliad/yr ysgol; wrth ymgymryd ag astudiaeth o'r amgylchedd lleol, dylid tynnu sylw at arwyddion ffyrdd dwyieithog yn ogystal ag enwau tai, strydoedd neu leoedd Cymraeg neu ddwyieithog
- profi traddodiadau a dathliadau yn y gymuned leol ac ar draws Cymru

## Datblygiad Corfforol

- defnyddio chwyddwydrau a microsgop syml i arsylwi planhigion a phryfed, a chofnodi eu harsylwadau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau; bydd y diagramau a'r darluniau'n dod yn fwy soffistigedig wrth i sgiliau llawdrin manwl y plant ddatblygu
- cofnodi eu datblygiad corfforol a'u newid eu hunain dros amser

## Datblygiad Creadigol

- wrth ddefnyddio offerynnau cerdd gwahanol (wedi'u gwneud â llaw ac yn fasnachol) gall plant ddyfeisio a chynrychioli'r synau a glywir yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- trwy ddylunio gwisg hanesyddol, actio allan rôlau mewn stori.



# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

*Chwilota'r Chwedlau* gan O Dyer a S V Hughes
(Canolfan Astudiaethau Addysg, 2007) ISBN: 9781845211523

*Clamp a Pitw: Carnifal y Creaduriaid* gan A O Richards
(Awen, 2007) ISBN: 9781905699049

*Cyfres Dros yr Enfys: Beth sydd ar Goll?/What's Missing?*
gan G S Jones (Atebol, 2006) ISBN: 9781905255375

*Enquiring Children, Challenging Teaching* gan M de Boo
(OUP, 1999) ISBN: 9780335200962

*Exploring Play in the Primary Classroom* gan G Beardsley a P Harnett
(David Fulton Publishers Ltd, 1998) ISBN: 9781853464638

*Exploring Time and Place* Through Play gan H Cooper
(David Fulton Publishers Ltd, 2007) ISBN: 9781843120902

*Geography in the Early Years* gan J A Palmer a J Birch
(Routledge Falmer, 2004) ISBN: 9780415320702

*History in the early years* gan H Cooper (Routledge Falmer, 2002)
ISBN: 9780415271455

*The Little Book of Living Things* gan L Thornton, P Brunton, M Hardy
a S Featherstone (Featherstone Education Ltd, 2005)
ISBN: 9781905019120

*Move It!: Motion, forces and you* gan A Mason
(Kids Can Press, 2005) ISBN: 9781553377580

*Supporting Science, Design and Technology in the Early Years*
gan J Siraj-Blatchford ac I MacLeod-Brudenell
(Open University Press, 1999) ISBN: 9780335199426

*Teaching Across the Early Years 3–7* gan H Cooper a C Sixsmith
(Routledge Falmer, 2003) ISBN: 9780415254731

Mae'r llyfrau canlynol yn y gyfres *Storïau Hanes Cymru* ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg o'r Dref Wen, 28 Church Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EA
Ffôn: 029 2061 7860
Ffacs: 029 2061 0507
www.storiauhanescymru.com

*Betsi Cadwaladr, Nyrs yn Oes Victoria* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962101

*Caradog a'r Rhufeiniaid* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962057

*Daniel Evans ym Mhatagonia* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962125

*Diwrnod Golch Rachel* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 2003) ISBN: 9781855965607

*Gerallt Gymro* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962064

*Hedd Wyn a'r Gadair Ddu* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962132

*Jane Prichard, Plentyn y Plas* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962095

*Laura Ashley, Dylunydd Ffasiynau* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962149

*Llywelyn ein Llyw Olaf* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962149

*O. M. Edwards a'r Welsh Not* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 2003) ISBN: 9781855965577

*Shirley Bassey* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 2003) ISBN: 9781855965614

*Susan Rees, Merch yn y Pwll Glo* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962118

*Taith i Lan y Môr* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 2003) ISBN: 9781855965638

*William Morgan a'r Beibl Cymraeg* gan J Evans (Gwasg y Dref Wen, 1997) ISBN: 9781855962088

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
Ffôn: 029 2039 7951
www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth,
Ardal Forwol, Abertawe SA1 3RD
Ffôn: 01792 638950
www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
Ffôn: 01286 870630
www.amgueddfacymru.ac.uk/llechi

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Stryd Fawr, Caerllion,
Casnewydd NP18 1AE
Ffôn: 01633 423134
www.amgueddfacymru.ac.uk/caerllion

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn: 029 2057 3500
www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn,
Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
Ffôn: 01559 370929
www.amgueddfacymru.ac.uk/wlan

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen NP4 9XP
Ffôn: 01495 790311
www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit

Canolfan Addysg Amgylcheddol Legacy, Is-orsaf y Grid Cenedlaethol
Wrecsam, Bronwylfa Road, Rhostyllen, Wrecsam LL14 4HY
Ffôn: 01978 843404
www.naturegrid.org.uk/legacy

Canolfan Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU
Ffôn: 01978 292093
Ffacs: 01978 292611
www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/arts_centre/arts_index.htm

Maenordy Llancaiach Fawr, Ffordd Gelligaer, Nelson, Treharris CF46 6ER
Ffôn: 01443 412248
www.caerphilly.gov.uk/llancaiachfawr

Y Ganolfan Eifftaidd, Prifysgol Cymru Abertawe, Parc Singleton,
Abertawe SA2 8PP
Ffôn: 01792 295960
www.swan.ac.uk/egypt/Cymraeg.html

Cyn defnyddio unrhyw wefan gyda phlant mae'n hanfodol bod yr ymarferydd yn mynd i'r wefan ymlaen llaw. Dylai wneud hyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth/deunydd y mae'n bwriadu eu defnyddio yn:

- ategu dysgu'r plant
- perthnasol i'r gwaith a gaiff ei archwilio
- priodol i'r plant.

Mae Cadw yn gorff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r datganiad i ddiogelu, gwarchod, a hybu etifeddiaeth adeiledig y wlad. Mae'r rhan fwyaf o gestyll, abatai a gofadeilau eraill y wlad nawr o dan ofal Cadw. Mae eisioes dros gant ohonyn nhw i'w darganfod ar hyd a lled Cymru.

www.cadw.wales.gov.uk

Mae Learning through Landscapes yn helpu lleoliadau/ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar i fanteisio ar eu mannau awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu.

www.ltl.org.uk

Mae *Early Childhood Research and Practice* (ECRP) yn gyfnodolyn electronig sy'n cwmpasu pynciau sy'n ymwneud â datblygiad, gofal ac addysg plant o'u genedigaeth i 8 oed.

www.ecrp.uiuc.edu

Mae gwefan gydweithredol Early Childhood and Parenting (ECAP) yn lleoliad i fwy na dwsin o brosiectau sy'n canolbwyntio ar addysgu a magu plant ifanc. Mae ECAP yn lleoliad i waith ymchwil, cymorth technegol, a phrosiectau gwasanaeth, ac mae ei ysgrifenwyr a'i olygyddion profiadol yn ymateb i gwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r cynnwys, gan baratoi cyhoeddiadau yn ogystal â darparu hyfforddiant a chyflwyniadau.

ecap.crc.uiuc.edu

Elusen addysgol yw Techniquest a phrif ganolfan wyddoniaeth y DU. Mae'r prif leoliad ym Mae Caerdydd, ac mae ganddi ganolfannau llai yn Llanberis a Wrecsam. Mae'n darparu citiau gwyddoniaeth, gweithdai a Phlanetariwm symudol ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion Cymru'n uniongyrchol. Mae'r wefan yn cynnwys adnoddau defnyddiol, gweithgareddau a gêmau ar-lein, a gwybodaeth bellach am wasanaethau i ysgolion yn eu hardaloedd eu hunain.

www.techniquest.org

# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgìl i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei ddilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd

ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, ac felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferydd/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddyn nhw, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydyn nhw'n ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Cylch Chwarae School Lane, Llandudno

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru

Gwasanaethau Ymgynghorol Awdurdodau Addysg Lleol

Mudiad Ysgolion Meithrin

Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant

Ysgol Babanod Parc Borras, Wrecsam

Ysgol Babanod Troed-y-rhiw, Merthyr Tudful

Ysgol Deiniol, Wrecsam

Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri

Ysgol Gynradd Kitchener, Caerdydd

Ysgol Rhiw Bechan, Powys

Ysgol y Gogarth, Llandudno

Ysgol y Llys, Prestatyn.